**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13 Chwefror 2017**

**Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybodaeth i'r aelodau am y Gofrestr Risgiau Strategol.

**Cyflwyniad**

2 Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

3 Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

4 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg yn y dyfodol ar ôl gweithredu gwrth-fesurau a gynlluniwyd.

5 Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar bwyso a mesur pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd, a beth fyddai'r canlyniadau petai'r peth hwnnw'n digwydd. Ceir disgrifiadau er gwybodaeth yn Atodiad 1.

## Gwybodaeth

6 Rhoddwyd yr adroddiad diwethaf i'r Aelodau yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Hydref, i roi crynodeb o gynnwys y gofrestr risgiau strategol ar y pryd.

7 Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelid y byddai lefel y risg yn y rhan fwyaf o'r risgiau a ganfuwyd – a oedd yn amrywio o 'uchel iawn' i 'ganolig isel' - yn cael eu lleihau.

8 Cydnabuwyd y byddai rhai risgiau a ganfuwyd (e.e. risg marwolaeth neu anaf difrifol i aelod o'r staff yn y gweithle) yn parhau ar yr un lefel o risg hyd yn oed ar ôl cynllunio gwrth-fesurau.

9 Ers hynny, parhawyd i gynllunio a gweithredu gwrth-fesurau gyda'r nod o leihau neu osgoi cynnydd yn y lefelau risg.

10 Cafodd yr Aelodau wybod o'r blaen fod y ddau risg mwyaf yn ymwneud ag: ymosodiad ar system gyfrifiadurol y Gwasanaeth; a lefel cadernid y Gwasanaeth petai, yn sydyn, yn colli staff â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes ATAGC. Mae'r ddau beth yma'n parhau yn y categori risg 'uchel iawn'.

11 Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu risgiau, tynnu risgiau oddi arni, ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Ceir crynodeb o'r cofnodion diweddaraf ar y gofrestr yn Atodiad 1.


## Argymhelliad

12 Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r risgiau strategol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu.

**Atodiad 1**

## Y Gofrestr Risgiau Strategol fel y mae ar 26/01/2017

**i** Mae'r siart isod yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau yn y dyfodol a roddir i risgiau strategol a ganfuwyd ac sy'n wynebu'r Awdurdod.




**ii** <u>Risg uchel iawn</u>

Canfuwyd bod dau risg yn golygu risg uchel iawn i'r Awdurdod. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- risg ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth; a
- lefel cadernid y Gwasanaeth petai'n sydyn yn colli aelod o'r staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes ATAGC.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i risg uchel.

**iii** <u>Risg uchel</u>

Canfuwyd bod pedwar ar ddeg o risgiau'n golygu risg uchel i'r Awdurdod. Yn gryno, heb unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â:

- lleihad annisgwyl (yn barhaol neu'n lled-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar y gallu i ymateb mewn argyfwng;
- gallu'r Gwasanaeth i ymdrin â beichiau ychwanegol (a roddir o'r tu allan);
- arian annigonol i ddarparu gwasanaethau craidd neu gynnal y systemau risg-gritigol;
- camddefnydd terfysgol a/neu droseddol o asedau;
- llywodraethu prosiectau a phartneriaethau'n aneffeithiol;
- rheoli gwybodaeth am y gweithlu'n aneffeithiol;
- gwneud penderfyniadau aneffeithiol neu ddiffygiol ar lefel yr Awdurdod;
- peidio â chyflawni amcanion gwella'r Awdurdod;
- tarfu ar berthnasoedd a sefydlwyd â phartneriaid mewn llywodraeth leol;
- effeithiau posibl datblygiadau mawr arfaethedig yn Ynys Môn (Wylfa Newydd, a chyfleuster hamdden Land and Lakes);

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd tri yn aros ar lefel uchel o risg, bydd wyth yn mynd i lawr i lefel canolig uchel, a bydd tri yn mynd i lawr i lefel canolig isel o risg.

**iv** <u>Risg canolig uchel</u>

Canfuwyd saith risg canolig uchel hefyd. Yn gryno, a heb fod mewn unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud ag: anaf difrifol i aelod o'r staff tra maent yn y gwaith; yr effeithiau anhysbys o ganlyniad i'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd; yr oedi posibl yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol a chost meddalwedd gorchymyn a rheoli newydd; y risgiau annatod sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio gwasanaethau a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol; y posibilrwydd o dorri data personol; a chadw'r cysondeb gweithredol â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y byddai pedwar yn aros ar y lefel risg canolig uchel, a byddai tri yn mynd i lawr i risg canolig isel.

**v** <u>Risg canolig isel</u>

Mae dau risg wedi cael eu categoreiddio'n rhai canolig isel. Mae'r rhain yn ymwneud â methu â rhagweld a mynd i'r afael â phroblemau mewn da bryd; a sicrhau'r cyfalaf o ganlyniad i werthu safleoedd.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, byddai un yn aros yn risg canolig isel, a byddai un yn mynd i lawr i risg isel.

**Atodiad 1**

## Dadansoddi'r risgiau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TEBYGOL-RWYDD** | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | **CANLYNIAD** | | | | |

## Graddfa blaenoriaeth risgiau

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |